# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Llangollen Fechan**

**Cartref Preswyl Llangollen Fechan**
**Ffordd Caergybi**
**Llangollen**
**LL20 7PR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Llangollen Fechan

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Roberts Homes North Wales Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 87 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Chwefror 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r cartref yn gynnes ac yn groesawgar, ac mae darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod nifer priodol o staff hyfforddedig yn y cartref i gefnogi'r bobl. Mae'r bobl yn hapus yn byw yn y cartref, ac maent yn hoffi'r staff a'r bwyd. Gall y bobl ddewis sut i dreulio eu hamser yn y cartref a chânt eu cefnogi i gynnal cydberthnasau â theulu a ffrindiau.

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod systemau llywodraethu addas ar waith.  Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd fel rhan o'i brosesau effeithiol i oruchwylio rheolaeth ac ansawdd y gofal a ddarperir yn y cartref. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn adrodd i ddarparwr y gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn helpu i lywio gwelliant a datblygiad y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol, sy'n gweithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau bod y cartref yn diwallu anghenion y bobl.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwelsom y gall y bobl ddod â'u hanifeiliaid anwes i'r cartref drwy drefnu gyda'r rheolwr ymlaen llaw. Gall y bobl ddewis o fwydlen amrywiol a gallant ddewis ble i fwyta; mae gan yr ardaloedd bwyta fyrddau grŵp bach a mawr er mwyn i'r bobl allu cymdeithasu yn ystod amser bwyd. Mae gosodiadau lleoedd ar y byrddau ac mae'r bobl yn cael profiad bwyta dymunol ac urddasol. Gwelsom fod y bobl y mae'n well ganddynt fwyta yn y lolfeydd neu yn eu hystafelloedd hefyd yn cael y profiad hwn. Dywedodd y bobl "*The food is lovely"* a'u bod yn mwynhau'r gweithgareddau amrywiol sydd ar gael ac y gallant ddewis cymryd rhan ynddynt os ydynt yn dymuno. Gwelsom y staff gofal yn trin y bobl ag urddas a pharch ac ategwyd hyn gan adborth a welwyd gan berthnasau a oedd yn dweud *"staff go above and beyond"* i gefnogi'r bobl.

Mae'r bobl yn cael cymorth gyda'u hiechyd corfforol, eu hiechyd meddwl eu hiechyd emosiynol a'u llesiant. Mae cofnodion yn dangos y caiff y bobl eu cefnogi i gael cyngor gofal iechyd a chael y gofal a'r cymorth cywir yn brydlon. Mae adborth gan weithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref yn cadarnhau bod y gweithwyr gofal a'r rheolwr yn cyfathrebu'n agored ac yn dda â'r gweithwyr proffesiynol ac mae ganddynt gydberthnasau da â nhw. Mae cydgysylltwyr gweithgareddau yn y gwasanaeth bob diwrnod o'r wythnos bron, ac maent yn darparu rhaglen lawn ac amrywiol o weithgareddau i ddiwallu anghenion y bobl a chefnogi eu diddordebau. Gwelsom fod y gweithgareddau a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer yr wythnosau nesaf yn cynnwys sesiynau harddwch, clwb dynion, clwb gwau, bingo, sesiynau crefft neu goginio, prydau dathlu, a sgyrsiau un i un â'r bobl yn eu hystafelloedd. Gwelsom y bobl yn gwenu ac yn mwynhau cymryd rhan mewn sesiwn bingo yn ystod ein hymweliad a chlywsom y bobl yn canu a'r staff gofal yn sgwrsio yn Gymraeg drwy gydol y dydd. Dywedodd y bobl wrthym, “*There is always something happening if you want to join in*”. Gwelsom fod ymwelwyr yn cael eu croesawu i'r cartref drwy gydol y dydd.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed gan staff sydd wedi cael hyfforddiant i ddiwallu eu hanghenion. Mae cofnodion yn dangos bod y bobl nad ydynt yn meddu ar alluedd i wneud penderfyniadau am eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu cefnogi fel mater o drefn gyda deddfwriaeth berthnasol a gallant gael gafael ar wasanaethau eirioli pan fo angen.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion. Gwelsom fod nwyddau a chyfarpar digonol yn y cartref, ac y gellir cael gafael arnynt pan fo angen. Gwelsom fod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith a bod y gweithwyr gofal a'r ymwelwyr yn dilyn y polisïau.

## Gofal a Chymorth

Cesglir amrywiaeth o wybodaeth gan y bobl eu hunain, eu cynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol, ac mae'r tîm rheoli yn ei hystyried wrth benderfynu a yw'r cartref yn gallu cefnogi anghenion y bobl. Defnyddir y wybodaeth hon, yn ogystal ag asesiadau risg perthnasol a gwybodaeth arall am iechyd a llesiant y person unigol, i ysgrifennu cynlluniau personol manwl er mwyn cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau delfrydol. Mae'r bobl a'u teuluoedd neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o lunio ac adolygu eu cynlluniau gofal personol, a chaiff eu dymuniadau eu cofnodi'n glir ar gyfer y gweithwyr gofal yn eu cynlluniau personol. Mae cynlluniau personol y bobl yn eu hannog i gymryd risgiau cadarnhaol pan fo'n bosibl ac yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'r staff ar ddymuniadau'r bobl o ran trefn ddyddiol, er enghraifft amser gwely, amser bwyd a gofal personol. Gwelsom fod diddordebau a hobïau'r bobl wedi'u nodi'n glir fel bod gan y gweithwyr gofal ddarlun cynhwysfawr o'r bobl unigol y maent yn eu cefnogi. Mae'r wybodaeth hon hefyd yn rhoi pynciau trafod i'r gweithwyr gofal pan fyddant yn sgwrsio â'r bobl, yn enwedig fel rhan o'u gweithgareddau hel atgofion gyda phobl sy'n byw gyda dementia. Caiff gallu a dewisiadau'r bobl o ran siarad Cymraeg eu cofnodi yn eu cynlluniau hefyd.

Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl a'u hanghenion cymorth yn dda, ac mae'r cofnodion yn y cartref yn dangos eu bod yn cefnogi'r bobl yn unol â'u cynlluniau personol unigol. Gwelsom fod y bobl yn gwisgo sbectol a chymhorthion clyw er mwyn diwallu eu hanghenion cyfathrebu a nodwyd. Gwelsom y staff gofal yn sgwrsio â'r bobl yn Gymraeg ac yn siarad Cymraeg wrth gefnogi'r bobl gyda'u hanghenion. Gwelsom gydberthynas dda rhwng y staff a'r bobl sy'n byw yn y cartref; roedd y staff yn garedig, yn sylwgar ac yn gwenu ac yn chwerthin gyda'r bobl drwy'r dydd. Roedd y staff gofal yn rhagweld anghenion cymorth y bobl ac yn cyfathrebu'n barhaus â'i gilydd er mwyn sicrhau bod yr anghenion hynny'n cael eu diwallu'n brydlon. Ategwyd hyn gan adborth y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref, a gan y bobl sy'n byw yn y cartref, a ddywedodd "*Staff are very good and do what I ask if I need help*" a "*They look after you well here*".

Gwelsom fod mesurau atal a rheoli heintiau da ar waith yn y gwasanaeth. Mae polisïau ar waith, ac mae'r staff yn eu dilyn; a gwelsom y staff yn glanhau'r cartref yn ystod yr arolygiad. Gwelsom ddefnydd da o gyfarpar diogelu personol i gadw'r bobl yn ddiogel.

Mae systemau ar waith i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rheoli'n ddiogel yn y cartref. Mae hyn yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau, ac archwiliadau allanol o'r trefniadau gweinyddol, storio ac archebu gan fferyllfa leol. Mae'r rheolwr wedi dechrau gweithio drwy'r camau gweithredu o'r archwiliad diweddaraf ac mae'n sicrhau bod y staff sydd wedi cael hyfforddiant ar feddyginiaethau yn cynnal eu cymwyseddau a'u hymwybyddiaeth o'r arferion gorau.

## Yr Amgylchedd

Mae gan y cartref erddi diogel gydag ardaloedd eistedd sy'n hygyrch i'r bobl drwy'r lolfeydd cymunedol ar lawr gwaelod y cartref. Yn allanol, mae'r darparwr yn sicrhau bod yr adeilad a'r tir mewn cyflwr da a bod y safle mewn cyflwr strwythurol da.

Gwnaethom nodi bod yr awyrgylch yn y cartref yn dawel ac yn hamddenol. Mae'r cartref yn gynnes ac yn groesawgar, ac mae'r ardaloedd cymunedol yn daclus. Mae'r lolfeydd a'r ardaloedd cymunedol yn olau gyda digonedd o seddi i'r bobl. Mae'r rheolwr newydd wedi dechrau gwneud newidiadau i gynllun y cartref ac wedi dechrau ailaddurno gwahanol ardaloedd er mwyn creu ardaloedd byw sydd wedi'u diffino'n gliriach gyda'r nod o helpu'r bobl sy'n byw gyda dementia i ganfod eu ffordd o gwmpas pan fydd yn amser bwyd neu pan fyddant am gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden. Mae'r rheolwr hefyd wedi creu ardaloedd eistedd llai i bobl sy'n byw gyda dementia ymlacio ynddynt, oddi wrth y prif ardaloedd cymunedol os byddai'n well ganddynt. Mae'r gwaith addurno yn y cartref mewn cyflwr da a gwelsom yr Unigolyn Cyfrifol ar y safle yn dod â samplau o loriau i'r rheolwr ddewis ohonynt fel rhan o'r gwaith parhaus i atgyweirio a diweddaru'r adeilad.

Mae cyfarpar arbenigol ar gael i ddiwallu anghenion y bobl a gwelsom fod hwn yn cael ei wasanaethu a'i gynnal a'i gadw fel mater o drefn. Gwelsom dystiolaeth fod darparwr y gwasanaeth yn rheoli risgiau posibl i iechyd a diogelwch y bobl yn y cartref drwy gynnal gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd, ynghyd ag archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd yn y gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth fod hyfforddiant iechyd a diogelwch a diogelwch tân y staff yn gyfredol, a thystiolaeth o Gynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng ar gyfer unigolion, y gellir cael gafael arnynt yn hawdd mewn argyfwng.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod strwythurau llywodraethu addas ar waith er mwyn monitro, datblygu a gwella ansawdd y gofal yn y cartref. Caiff y gweithwyr gofal eu harwain gan bolisïau a gweithdrefnau sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn aml ac yn cyfarfod â'r rheolwr yn rheolaidd fel rhan o'i waith i oruchwylio'r gwasanaeth. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol. Gwelsom dystiolaeth fod yr Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl a'r staff pan fydd yn y cartref; yn ystod ein hymweliad arolygu, gwelsom fod gan yr Unigolyn Cyfrifol gydberthynas dda â'r staff, a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus wrth godi pryderon yn uniongyrchol ag ef neu'r rheolwr. Gofynnir yn rheolaidd i'r bobl, eu perthnasau neu eu cynrychiolwyr, a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref, roi eu hadborth a'u barn am y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn adrodd ar ansawdd y gofal yn y gwasanaeth i ddarparwr y gwasanaeth ddwywaith y flwyddyn. Mae adroddiadau ysgrifenedig ar ansawdd y gofal yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn monitro ansawdd y gofal a ddarperir yn briodol ac yn gwneud argymhellion i'r darparwr ar gyfer datblygiadau a gwelliannau i'r gwasanaeth yn y dyfodol yn seiliedig ar yr adborth a gesglir, a dadansoddiad o'r wybodaeth a gesglir wrth reoli a rhedeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae darparwr y gwasanaeth wedi dechrau rhoi system archwilio rheolaeth newydd ar waith y byddwn yn ei hadolygu yn ein harolygiad nesaf.

Mae'r rotas a welsom yn dangos bod nifer digonol o staff gofal sydd wedi'u hyfforddi yn y cartref drwy gydol y dydd a'r nos. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod pob bwlch yn y rota wedi'i lenwi; os caiff staff asiantaeth eu defnyddio, mae'r rheolwr yn gofyn am yr un aelodau o staff yn rheolaidd er mwyn sicrhau parhad gofal i'r bobl. Mae cofnodion yn dangos bod arferion recriwtio diogel yn y cartref, gan gynnwys prosesau fetio addas er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth. Roedd y rheolwr yn gallu dangos bod y gwiriadau cofrestru ar gyfer y staff wedi'u cwblhau, a chaiff gwiriadau eu cynnal er mwyn sicrhau bod gan y staff asiantaeth y sgiliau a'r cymhwysedd sydd eu hangen i allu cefnogi'r bobl yn briodol. Dangosodd y rheolwr wrthym ei fod yn rhoi rhaglen sefydlu fwy cadarn ar waith ar gyfer staff newydd ar hyn o bryd. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff a welsom yn dangos bod y gweithwyr gofal wedi cyflawni hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y bobl, ac mae'r cofnodion ar gyfer y cartref yn dangos bod y darparwr yn monitro hyn. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan yr uwch-reolwyr, a'u bod yn hyderus yn eu gwaith. Fodd bynnag, mae'r cofnodion yn dangos bod angen gwneud gwelliannau i ba mor aml y mae'r staff yn cael eu goruchwylio. Mae hyn wedi'i nodi eisoes gan yr Unigolyn Cyfrifol fel blaenoriaeth ar gyfer y rheolwr newydd ac mae'r darparwr wedi rhoi gwaith papur newydd ar waith er mwyn cefnogi hyn. Byddwn yn adolygu'r cynnydd yn hyn o beth yn ein harolygiad nesaf o'r gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 16 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau y caiff y cynlluniau gofal eu diwygio mewn modd amserol a'u bod yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf o asesiadau risg a gwybodaeth gan weithwyr meddygol a gweithwyr iechyd proffesiynol. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/12/2023